

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6ed o Hydref, 2022.

1. **Presennol** John Jones (Cadeirydd), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), Gwilym Evans, Richard Williams (Prenteg), Sarah Jones, Huw Pritchard (Pentrefelin), Michael Jones (Garndolbenmaen), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Megan Lloyd Williams (Golan), Stephen Churchman (Cynghorydd Cyngor Gwynedd)
2. **Ymddiheuriadau** Iddon Edwards (Penmorfa), Manon Jones Evans (Pentrefelin), Dafydd Thomas (Penmorfa), Clifford Williams (Garndolbenmaen) a June Jones (Cynghorydd Cyngor Gwynedd)
3. **Ddim yn bresennol** Neb
4. **Datgan buddiant** Neb
5. **Cywirdeb cyn-gofnodion** Michael Jones yn cynnig eu bod yn gywir a Sarah Jones yn eilio.
6. **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Etholiad 2022: Clerc wedi cysylltu yn ôl hefo Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd i holi pa newidiadau byddent yn ei wneud i'r drefn etholiadol. Cyngor Gwynedd wedi cydnabod derbyn yr ohebiaeth, dal i ddisgwyl ymateb llawn.

John Ystumllyn: Tri rhosyn wedi ei brynu o Gronfa'r Cadeirydd. Clerc wedi cysylltu hefo'r Adran Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd i gael caniatâd. Swyddog o'r adran yn hapus i'r rhosod gael eu gosod ger y fainc yng nghanol Pentrefelin. Awgrymodd gan nad oes glaswellt naill ochr i'r fainc y byddai'n syniad eu plannu mewn potiau, byddai hefyd yn hapus i helpu drwy wneud arwyddion plac i'w gosod yn y potiau i ddweud beth yw'r rhosod. Clerc wedi cysylltu hefo perchennog Tyddyn Sachau. Cynghorwyd bod angen potiau dwfn ar gyfer y

rhosod, fel hanner casgen ac y bydd angen eu plannu mewn John Innes No 3 a'i gymysgu gydag ychydig o gompost amlbwrpas a cherrig man ar y gwaelod. Rhoddodd bris o £40 yr un am y casgenni.

Soniwyd fod dyn lleol o Bentrefelin yn gwneud dodrefn coed. Huw Pritchard i gysylltu gyda'r dyn lleol i weld beth all gynnig ac am ba bris.

Soniwyd hefyd fod Ffion Gwyn, Arlunydd Lleol wedi cynnig gwneud arwydd ar gyfer y rhosod am gomisiwn.

Mynwent Bethel: Derbyniwyd pris o £195 gan contractor i glirio llwybrau'r fynwent. Y gwaith wedi'i gwblhau i safon.

Llwybr Rhif 5 Cambrian Terrace heibio Bryn Moel: Clerc wedi cysylltu gyda'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, Cafwyd cyfarfod safle gydag o a Chynghorwyr Garndolbenmaen ar y 4ydd o Hydref. Uwch Swyddog Hawliau Tramwy wedi cytuno i osod dwy giât newydd, rhoi peipen yn y ffoes a rhoi llechi/cerrig yn ôl.

Yr Hen Dramffordd, Cwmystradllyn: Clerc wedi cysylltu gydag Uwch Swyddog Hawliau Tramwy. Adroddwyd mai dim ond y rhan uchaf o'r hen dramffordd sydd yn llwybr cyhoeddus er mae rhan fwyaf ohoni o fewn tir agored. Roedd yn cydnabod bod rhwydwaith llwybrau cyhoeddus yr ardal yn ddryslyd ac mae'n ymwybodol o sawl mater sydd angen sylw yno. Mae o yn awyddus i gydweithio hefo'r Cyngor Cymuned a'r Parc Cenedlaethol i ddod a'r rhwydwaith yma i safon. Clerc i gysylltu yn ôl hefo'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy ac i wneud cyswllt hefo Parc Cenedlaethol Eryri i weld sut y gallwn symud ymlaen hefo'r gwaith yma.

Mynydd Cennin: Cafwyd ymateb gan yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy yn dweud ei fod wedi ymweld ac adrodd yn ôl am y safle yma yn ôl ym mis Tachwedd 2021. Bryd hynny fe adroddodd ei fod wedi sylwi ar sawl diffyg ar y camfeydd yr oedd wedi gallu defnyddio a'i gyrraedd. Bydd rhaid edrych ar y rhai na allodd ei gyrraedd er mwyn gweld sut gyflwr sydd ar y llwybr yn ei gyfarwydd cyn rhoi barn. Roedd yn cydnabod o'r hyn oedd wedi ei weld bod

camfeydd angen sylw/newid. Clerc i gysylltu yn ôl gyda'r swyddog i weld os allwn symud ymlaen hefo'r mater yma.

Gwaith Dŵr, Cwmystradllyn: Cynghorydd wedi cael cyfarfod safle gyda chynrychiolydd o Dŵr Cymru. Gwaith wedi ei gwblhau i dacluso'r gwaith dŵr. Adroddwyd pryder bod Llysiau'r Gingroen yn tyfu yno. Clerc i wneud ymholiadau os yw'n bosib cael gwared.

Adroddwyd bod y ffordd i lawr at Lyn Cwmystradllyn mewn cyflwr gwael a bod ymylon y ffordd angen eu torri. Clerc i weld os yw'n bosib cael cyfarfod safle i drafod hyn.

Adroddwyd gan gyngorydd bod llawer o ffyrdd cefn heb gael eu torri blwyddyn yma. Cododd y cwestiwn a yw Cyngor Gwynedd yn monitro bod y gwaith yn cael ei gwblhau. Clerc i ofyn y cwestiwn i Gyngor Gwynedd.

Lôn Tabor, Pentrefelin: Adroddwyd bod un garreg dal i fod ar y ffordd, wrth bwys yr allt. Clerc i gysylltu yn ôl eto gyda'r Uned Briffyrdd.

7. Mynwentydd

Rhoddyd clod i'r contractwr oedd wedi cwblhau gwaith ym Mynwent Bethel ac ym Mynwent Ynys Cynhaearn.

Gwaith ar fedd ym Mynwent Bethel heb ei gwblhau - John Jones i gysylltu gyda Martin Kerr i'w drafod.

8. Llwybrau Cyhoeddus Dim i'w adrodd

9. Adroddiad Pentrefi

Pentrefelin: Dal ddim gwybodaeth ar bwy sydd berchen y darn o dir wrth Bryn Tyddyn.

Golan/Cwmystradllyn: Adroddwyd fod yna ddiffyg biniau baw cŵn wrth y Llyn. Dŵr Cymru wedi adrodd yn y gorffennol nad yw'r arferiad i osod biniau baw cŵn wrth eu llynnoedd.

Bryncir: Dim i'w adrodd.

Penmorfa: Adroddwyd nad yw'r gwaith o dorri'r cae chwarae wedi cael ei wneud fel y mae bod. Adroddwyd fod y cae wedi cael ei "strimio" yn hytrach na'i dorri a bod y gweddillion wedi cael ei waredu dros y cloddiau. Nid yw'r cae wedi cael ei chwistrellu chwaith. Ni chafodd y cae heb ei dorri ym Mis Ebrill na Mis Medi fel y cytunwyd gyda'r contractwr. Cadarnhaodd y Clerc fod cytundeb mewn lle i'r Cae Chwarae gael ei dorri o Ebrill hyd at Fedi a chwistrellu unwaith y flwyddyn.

Prenteg

Adroddwyd fod dŵr yn cronni ar Bont y Traeth a bod yna goed yn tyfu ar ochr y môr i'r bont ac y gall y rhain gael effaith ar strwythur y bont i'r dyfodol. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

Adroddwyd nad oedd y draen uwch ben Squires Gate yn cymryd dŵr. Clerc i adrodd am hyn.

Adroddodd gan Gwilym Evans ei fod wedi siarad ag Iwan ap Trefor o Gyngor Gwynedd am y pryderon parthed cyflymdra drwy'r pentref ac nad oes llwybr troed. Doedd Iwan ap Trefor ddim yn anghytuno ond adroddodd nad oedd arian i ddatrys y mater ar hyn o bryd. Dywedodd ei fod am ei ychwanegu ar ei restr.

Garndolbenmaen

Adroddwyd pryder am y sefyllfa parcio yng Ngarndolbenmaen. Bu digwyddiad diweddar ble nad oedd bws gwasanaeth yn gallu mynd heibio dau gar oedd wedi parcio naill ochr i'r ffordd ac y bu'n rhaid i yrrwr y bws ddod allan a chnocio ar ddrysau tai i geisio cael y ceir wedi'u symud. Trafodwyd nad yw'r sefyllfa yma yn dderbyniol a bod angen ei ddatrys. Nid dyma'r tro cyntaf i'r sefyllfa barcio

gael ei godi. Clerc i gysylltu gyda'r cwmni bws ac i gysylltu hefo Adran Traffig Cyngor Gwynedd.

Mynegwyd pryder ynglŷn â llawer iawn o loriau yn teithio fyny'r ffordd tuag at Fynydd Glas a'u bod yn bacio i lawr ffordd gul ar draws llwybr cyhoeddus.

10. Dafarn Faig

Cafwyd cyfarfod safle ar y 4ydd o Hydref rhwng dau gynghorydd a Merfyn Wyn Morris, Swyddog o Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mr Morris yn cytuno fod y gyffordd yn beryg a bod datrysiad yn anodd. Adroddwyd fod posib gwella gwelededd wrth dorri'r clawdd sydd yn mynd fyny am Dafarn Faig a drwy leihau maint y clawdd pridd. Mr Morris yn awyddus i drafod y datrysiad yma gyda pherchennog y tir. Clerc i anfon y manylion ymlaen iddo.

Awgrymwyd hefyd bod y Cyngor yn cysylltu â'r Aelod Cynulliad Lleol er mwyn tynnu'r mater i'w sylw. Clerc i gysylltu.

11. Cyfethol Cynghorydd

Derbyniwyd llythyr cais gan Mr John Till i fod yn Gynghorydd dros Golan. Richard Parry yn cynnig ei fod yn cael ei gyfethol i'r Cyngor a Megan Lloyd Williams yn eilio. Clerc i gysylltu gyda Mr Till a'i wahodd i'r cyfarfod nesaf.

12. Rhoddion Ariannol

Penderfynwyd ei hysbysebu yn y papurau bro lleol, sef Y Ffynnon a'r Wylan ym mis Tachwedd a Hydref.

13. Cynllun Hyfforddi

Adroddwyd gan y Clerc ei bod yn ofyn cyfreithiol ar bob Cyngor Cymuned a Thref i ddod fyny â chynllun hyfforddi a'i gyhoeddi ar eu gwefan. Clerc wedi paratoi cynllun hyfforddi.

Cynghorwyr a'r Clerc i gwblhau'r ffurflen hunan arfarnu erbyn canol y mis.

14. Rheolau Claddu

Eglurwyd pam fod angen adolygu'r rheolau claddu. Bu i'r Pwyllgor Mynwentydd gyfarfod yn rhithiol ar y 8fed o Fedi i drafod y newidiadau. Bu i'r Rheolau Claddu diwygiedig gael eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod misol iddynt gael eu darllen ac ymgysfarwyddo gyda'r newidiadau.

Yn y cyfarfod misol bu i Gwenno Emlyn Huws gynnig eu bod yn hapus hefo'r adolygiad a Huw Pritchard yn eilio.

Awgrymwyd hefyd ein bod yn adolygu ein ffioedd claddu. Clerc i gysylltu gyda Chynghorau Cymuned Gyfagos megis Llanystumdwy, Llanllyfni i weld beth yw eu ffioedd.

15. Bancio Ar-lein

Penderfynwyd mynd ymlaen i wneud y trefniadau i fancio ar-lein.

16. Hwb Iechyd Eifionydd

Adroddwyd fod trefniadau cyswllt yr Hwb Iechyd dal i fod yn sâl ac annerbyniol. Adroddwyd mai dim ond un doctor oedd ar gael ym Mhorthmadog ac un yng Nghriccieth wythnos diwethaf.

Clerc i gysylltu gyda Chyngor Cymuned Llanystumdwy, Cyngor Tref Criccieth a Chyngor Tref Porthmadog i weld os ydynt yn rhannu'r un pryderon ac i weld os allwn ddod at ein gilydd i gwyno i'r Bwrdd Iechyd a hefyd i dynnu'r mater i sylw'r Aelod Cynulliad Lleol.

17. Gohebiaeth

- a) Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Cau Ffordd Ddi-ddosbarth gyferbyn a Chae'r Coed, Garndolbenmaen)
- b) Priffyrdd, Cyngor Gwynedd - Gwaith ail wynebu Capel Uchaf a Pensarn Cwm - Rhannwyd ar y 23/09/2022. Dyddiad wedi pasio.

- c) Ail rybudd Gorchymyn Cau Ffordd Ddi-ddosbarth gyferbyn a Chae'r Coed, Garndolbenmaen.

18. Gohebiaeth Ychwanegol

- a) Gwahoddiad i gyfarfod blynyddol Parc Cenedlaethol Eryri ac Agenda'r Cyfarfod.
- b) Cynllun gwella platform digidol
- c) Cynllun Peilot Ardal Dwyfor - Clerc i gysylltu i drefnu cyfarfod rhithiol i drafod y cynllun.
- ch) Canllawiau Arolygon Cymunedol
- d) Hyfforddiant Unllais
- dd) Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad Cyhoeddus (Ardaloedd Cadwraeth sydd yn addas ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain)

19. Cynllunio

Rhestrau: 29/8, 05/09, 12/09, 19/09, 26/09

Dim Ceisiadau.

20. Materion Ariannol

Ceisiadau am Arian: Dim ceisiadau

Anfonebau i'w talu:

- **Madog Garden Care:** £195.00 - cytunwyd i'w dalu
- **Cyngor Gwynedd (Gwasanaeth Etholiadol):** £642.00 - Adroddwyd nad yw'r Cyngor Cymuned yn hapus i dalu'r swm yma yn dilyn trafferthion a'r gwasanaeth a dderbyniwyd ganddynt. Clerc i gysylltu i gwestiynu'r anfoneb.
- **Rhosod John Ystumllyn:** £56.97 - cytunwyd i'w dalu.

Hydref

Cyflog Clerc (x2): £516.04
Ffôn (x2): £20.00
Cyfrifiadur (x2): £50.00
HMRC (X2): £128.80

Derbyniadau:

- **Ad-daliad TAW:** £4,673.63
- **Cyngor Gwynedd Precept:** £9,000

Balansau Cyfrifon Banc:

Cadw: £16,852.29 **Cyfredol:** £24,347.13

21. Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg / wefan

- Hwb Eifionydd
- Dafarn Faig
- Llwybr Rhif 5, Garndolbenmaen
- Cwmystradllyn